CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16ain MAI 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng J Evans (Cadeirydd) D T Roberts (Is-Gadeirydd) Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, R G Parry, W R Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU:
Neb.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.
Neb.

CAEL COFNODION 18ed EBRILL 2023. YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Miss L Roberts.

DEWIS SWYDDOGION 2023/24.

CADEIRYDD. Cyng D T Roberts. Cynnig Cyng J E Lewis.
Eilio. Cyng G Jones.

IS-GADEIRYDD. Cyng W R Parry. Cynnig Cyng R R Roberts.
Eilio Cyng R G Parry.

CYNGRYCHIOLWR / WYR. Cadeirydd / Is-Gadeirydd. Neu`r ddau. Unfrydol.

UN LLAIS CYMRU. Cyng D T Roberts. Cynnig Cyng R G Parry
Eilio. Cyng R R Roberts.

Diolchwyd i`r Cyng J Evans am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf gan y Cynghorwyr a`r Clerc.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Ymgynghoriad Haulfryn Bodffordd. Cyfarfod Mis Ebrill 2023.
Cafwyd llythyr di enw di gyfeiriad i law. Wedi ei anfon i`r Cadeirydd Cyng J Evans. Yn anffodus nid oedd y Cyngor yn medru ei drafod.
Mae yn amlwg bod camddealltwriaeth wedi cropian i fynnu. Nid oedd unrhyw fai ar y Cynghorydd Ms N Dafydd. Nid oedd y Clerc yn ymwybodol o beth oedd yn digwydd.
Mae croeso bob amser i aelodau o`r Gymuned ddod i wrando ar bob cyfarfod.

ELUSEN WILLIAM BOLD.

Derbyniwyd ohebiaeth gan yr ysgrifennydd R Rees. Y Clerc wedi anfon copiau allan i bob Cynghorydd gael ei dreulio i gael ymatebion pendant. Eglurodd y Cyng R G Parry rhai o`r pwyntiau r`oedd y Cyngor yn ofyn amdanynt. (Bu yn ymddiriedolwr amser yn ol) Ond bydd rhaid cael atebion gan yr ymddiriedolwyr presennol fel mae`r Cyngor yn gofyn ers amser.
Dewis ymddiriedolwr.
Dywedodd Cyng J Evans ei fod ef yn barod i fynd, nid oedd diddordeb gan y gweddill o Gynghorwyr Heneglwys. Etholwyd Cyng J Evans, cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng R G Parry.
Gofynwyd i`r Ymddiriedolwyr (Cyng J Evans a J E Lewis) am gael ymateb i`r gwybodaeth mae y Cyngor yn ei angen. Cafwyd addewid.
Mae yn amser dod a`r mater i ben mae wedi llusgo ddigon hir.

HYBYSFORDIADAU.

Rhaid rhoi pwys yn awr i gwblhau y gwaith.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   Y Cyngor yn gefnogol bydd Arfon Haines Davies yn cyflwyno darlith Goffa Kyffin Williams yn Oriel Mon. Ganwyd yn Caernarfon, mab i weinidog Wesleaidd. Un o wynebau mwyaf ar y Sianel HTV Cymru am 30 mlynedd.
   Bydd y Darlith Goffa Dydd Gwener 12ed Mai am 7.00pm. Trwy docyn £5.00 gyda gwydriad o win am ddim.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Prosiectau arbennig yn pontio`r Cenedlaethau.
   Wedi dod a phobl hyn ac ifanc at ei gilydd.
   Beiciau Google. Disgyblion Ysgol David Hughes. Ar gyfer Cartrefi gofal.
   Caffi Canu Biwmares.
   Grwp canu Dementia-Gyfeillgar, gan Munchkins Mon (Canolfan Biwmares)
   MIRLI Mon. Detholiad o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi. Gweithgredd Dementia.
   Ei dderbyn a`i gefnogi. Unfrydol.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Lon Las Mon - Adroddiad Cryno.
   Rheilffordd Segur o Gaerwen i Amlwch - Neu Llwybr Bawb.
   Y Cyngor yn cefnogi i ail gychwyn a`r cel llwybr beiciau.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng J Evans.

6. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn Cyng J E Lewis i`w dreulio.

RHODDION.

7. Eich Gorsaf, eich Llais MonFM. Gair o ddiolch am ei rhodd. Derbyn.

PLWYFOL.

8. Cyng D T Roberts.
   Problam gyda`r ceir yn parcio dros ffordd i Ty Twyrch, Bodffordd. Mae cwyn mawr gan nifer.
   Bydd damwain yma yn fuan os na ellir gwneud rhywbeth yn fuan.
   Gofyn `r Cyngor Sir beth ellir ei wneud.
   A`r yr un modd mae y parcio ar y sgwar ym Modffordd yn achosi problemau. Mae yn amser gwled llinellau melyn.

9. Llwybrau angen sylw.
   Mae Penybryn i Eirianellt Groes. Ty Croes (dros y ffordd i Coedlys) i Llwyn Onn, Llynfaes.
   Ty Du i Glanrafon (Capel Gad) ym Modffordd.
   Ar gynnig Cyng W R Parry eilio G Jones, ei awgrym i rhoi rhybudd yn yr Hysbysfordiau i`r cyhoedd ddod ymlaen os bydd. "Llwybrau angen sylw."

MATERION ARIANNOL.

10. Cyfrif Rhedegol £14,648.79. (Llwybrau £273.24. Praesept 1. £4,333,33)

11. Mynwent Gymunedol £7,390.00.

TALIADAU:

12. Clerc £450.00. I G Jones (Cyfrifydd) £228.00.
    Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng Mrs L Roberts.

D Owen (Clerc)